

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

{my}dentist, Llangefni

Dyddiad y gweithgarwch: 11 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 15 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o bractis {my}dentist, Llangefni fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn rhan o Integrated Dental Holdings (Grŵp IDH), ac mae ganddo rwydwaith o bractisau deintyddol ledled y DU. Mae {my}dentist, Llangefni yn darparu gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG i gleifion o bob grŵp oedran yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis, sef y rheolwr cofrestredig hefyd,<sup>1</sup> ac un o swyddogion rheoleiddio {my}dentist ddydd Mercher 11 Awst 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau a roddwyd ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

---

<sup>1</sup> Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg amgylcheddol a chynllun gweithredu diweddaraf
- Polisi glanhau a chynnal a chadw amgylcheddol
- Aseiad risg diogelwch tân a chynllun gweithredu

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Gwelsom fod y practis wedi cyflawni aseiad risg iechyd a diogelwch cyffredinol manwl, a oedd yn cynnwys asesiadau o'r amgylchedd, cyfarpar ac iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion sy'n ymweld â'r practis. Nodwyd gennym fod yr aseiad risg yn cynnwys dyddiad adolygu.

Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai dim ond drwy drefnu apwyntiad ymlaen llaw y gall unrhyw gleifion y mae angen iddynt fynychu'r practis wneud hynny. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ei sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19 24 awr cyn iddynt ddod i'r ddeintyddfa. Caiff y cleifion hefyd eu sgrinio cyn cael mynd i mewn i'r practis ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ddwy ddeintyddfa a bod y ddwy ohonynt yn fawr ac wedi'u hawyru'n dda, a'u bod felly yn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol a chylchredeg yr aer yn dda. Dywedwyd wrthym hefyd y cymerir gofal i gyfyngu nifer y cleifion sy'n mynychu ar yr un pryd a bod y staff sy'n derbyn cleifion ar y safle yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu gwirio bob dydd gan ddau aelod o'r staff. Mae rheolwr y practis wedyn yn rhoi adroddiad ar y canfyddiadau i'r brif swyddfa {my}dentist bob mis.

Canmolodd y rheolwr cofrestredig y staff am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

---

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig sylwadau cadarnhaol hefyd ar y cymorth a'r arweiniad a gynigiwyd gan dîm rheoli {my}dentist .

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-052 a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella y tynnwyd sylw atynt gan yr archwiliad
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau
- Cofnodion o wiriadau dyddiol o awtoclafau
- Cofnodion bath uwchsain

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth glir o'r Weithdrefn Weithredu Safonol<sup>3</sup> ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19. Bwriedir i bob lleoliad gofal deintyddol yng Nghymru ddefnyddio'r canllawiau. Caiff newidiadau i'r Weithdrefn Weithredu Safonol eu cyfleu i'r staff drwy gyfarfod sgrym rheolaidd, cyfarfodydd tîm rheolaidd a thrwy'r llwyfan cyfryngau cymdeithasol WhatsApp. Ychwanegodd y rheolwr cofrestredig fod y tîm yn gymharol fach a bod hyn wedi eu helpu i gyfathrebu.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff wedi cael diweddariadau rheolaidd ynglŷn â COVID-19. Caiff unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau newydd eu trafod â'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall goblygiadau'r newidiadau i'w gwaith.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff wedi cael amrywiaeth o sesiynau hyfforddi mewnol, gan gynnwys atal a rheoli heintiau a defnyddio PPE yn gywir, h.y. ei wisgo a'i ddiosg, a'i waredu'n ddiogel ar ôl ei ddefnyddio.

---

<sup>2</sup> Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/rheoli-gofal-deintyddol-cleifion-nad-ydynt-wedu-heintio-covid-19>

---

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff sy'n defnyddio masgiau wyneb FFP34 wedi cael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio'n iawn a'i fod yn cynnig diogelwch digonol.

Dywedwyd wrthym fod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, a bod digon o gyflenwadau ar gael drwy brif swyddfa {my}dentist a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn rhagweld y byddai unrhyw broblemau yn cael gafael ar PPE yn y dyfodol.

Gwelsom fod archwiliad rheoli heintiau a dihalogi wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio'r adnodd archwilio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Ystyriwyd bod hyn yn arfer dda am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Gwelsom fod cynllun gweithredu wedi cael ei lunio i fynd i'r afael ag unrhyw faterion y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr archwiliad.

Dangosodd tystiolaeth a ddogfennwyd fod y ddwy deintyddfa yn cael eu glanhau'n drylwyr bob dydd. Gwelsom hefyd dystiolaeth<sup>5</sup> bod yr awtoclafau<sup>6</sup> a'r bath uwchsain yn cael eu harchwilio bob dydd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad yw wedi gorfod rhoi triniaeth i gleifion sy'n dangos symptomau COVID-19 neu sy'n aros am ganlyniad prawf COVID-19 hyd yma. Gofynnid am ganllawiau gan dîm iechyd a diogelwch {my}dentist pe bai angen.

Dywedwyd wrthym nad oedd yr unigolyn cyfrifol wedi gallu ymweld â'r practis yn y cnaud oherwydd cyfyngiadau cenedlaethol yn ystod pandemig COVID-19. O ganlyniad, nid oedd copi o adroddiad yr unigolyn cyfrifol ar gael.<sup>7</sup> Dywedwyd wrthym fod trefniadau bellach ar waith i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis yn ystod yr wythnos yn dechrau 16 Awst 2021, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Cawson ein sicrhau y byddai copi o'r adroddiad ar ymweliad yr unigolyn cyfrifol yn cael ei anfon i AGIC maes o law.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod systemau archwilio cadarn ar waith sy'n cael eu monitro gan uwch-dîm rheoli {my}dentist. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod y rheolwr ardal {my}dentist yn ymweld â'r practis yn rheolaidd i gynnig cymorth a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---

<sup>4</sup> Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y sawl sy'n eu gwisgo rhag anadlu gronynnau bach yn yr awyr a all gynnwys feirysau.

<sup>5</sup> Eitemau o gyfarpar a ddefnyddir mewn practisau deintyddol i sterileiddio'r holl offerynnau a deunyddiau a ddefnyddir yn ystod triniaethau proffesiynol yw awtoclafau.

<sup>6</sup> Mae glanhawr uwchsain yn cael gwared ar fiolwyth gan ddefnyddio tonnau sain a gynhyrchir gan ynni trydanol. Wrth i'r tonnau sain symud drwy'r hydoddiant glanhau hylif, maent yn creu'r ffurfiant a hwrdd o filiynau o swigod bach.

<sup>7</sup> Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Taflen wybodaeth i gleifion
- Datganiad o Ddiben
- Archwiliadau cardiau cofnodion
- Gweithdrefn Weithredu Safonol
- Polisi cydsynio
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau i nifer uchel o gleifion sy'n siarad Cymraeg ac mae'n galonogol nodi bod y rhan fwyaf o'r staff yn siarad Cymraeg.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, sy'n cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Dywedwyd wrthym y gall y dogfennau hyn fod ar gael yn Gymraeg ar gais.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, e.e. archwiliad rheoli heintiau, archwiliad o ansawdd a diogelwch pelydr-X, archwiliad o gardiau cofnodion cleifion, archwiliad o fynediad i bobl anabl ac archwiliad penodol ar gyfer COVID-19.

Cawsom sampl o bolisiau a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a gwelsom hefyd eu bod yn cynnwys dyddiad adolygu.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o brosesau cofnodi digwyddiadau a'i fod yn gwybod sut i gysylltu ag AGIC, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r bwrdd iechyd i roi gwybod am ddigwyddiadau neu i ofyn am gyngor.

Dyweddwyd wrthym nad oes unrhyw aelodau o'r staff yn absennol oherwydd salwch ar hyn o

---

bryd ac nad oes unrhyw swyddi gwag yn y practis ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym hefyd na ddefnyddir staff asiantaeth yn rheolaidd i gyflenwi pan fydd staff yn absennol.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant y staff, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth uchel â hyfforddiant gorfodol.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig y rhoddir pob ystyriaeth ddyledus i gydraddoldeb a hawliau cleifion. Dywedwyd wrthym fod gan y practis bolisi cydraddoldeb a hawliau ar waith a bod staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, deddf galluedd meddyliol, llywodraethu gwybodaeth a rheoli cwynion. Gwelsom dystiolaeth o'r hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff yn y wybodaeth a ddarparwyd.

Cawsom gopi o bolisi cydsynio'r practis. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod clinigwyr yn cymryd amser i egluro cynlluniau triniaeth i gleifion.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---



# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.